**LC254**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Plant Anabl (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r meini prawf sy'n gymwys er mwyn galluogi awdurdodau lleol i wneud taliadau uniongyrchol i bersonau sydd â gofal rhiant dros blentyn anabl, neu i blant anabl 16 neu 17 oed. Mae'r taliadau uniongyrchol hyn i'w gwneud er mwyn galluogi prynu gwasanaethau a fyddai fel arall wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989.

Cafodd Rheoliadau i'r un perwyl eu gwneud ar gyfer Lloegr ar 15 Chwefror 2001 gyda dyddiad dod i rym ar 8 Ebrill 2001 (OS Rhif 442). Ni chododd y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol unrhyw bwyntiau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r dyddiad dod i rym wedi'i fewnosod ar frig y rheoliadau ond heb ei fewnosod yn Rheoliad 1(1).

Bydd angen cywiro hyn cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud a byddai'n fater priodol i'w gynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

Ar yr amod bod yr uchod yn cael ei gywiro, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Glyn Davies AC
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

15 Mai 2001